24c Stryd y Coleg
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3AF

Ffôn: 01269 595400
Ffacs: 01269 598510

Un Llais Cymru
One Voice Wales

24c College Street
Ammanford
Carmarthenshire
SA18 3AF

Phone: 01269 595400
Fax: 01269 598510

**Operation London Bridge**
**Canllawiau ar gyfer Cynghorau Cymuned & Thref**

Operation London Bridge yw'r ffugenw a roddwyd ar gyfer marwolaeth EM Y Frenhines Elizabeth yr Ail.

Cynhyrchwyd y nodyn canllaw hwn i gynorthwyo Cynghorau Cymuned & Thref wrth iddynt ystyried goblygiadau marwolaeth EM Y Frenhines i weithgarwch y Cyngor ac i helpu'r Cyngor i gynllunio pa gamau y mae'n dymuno eu cymryd adeg y cyfryw ddigwyddiad.

Mae'n rhoi amlinelliad o faterion y gallai Cyngor fod yn awyddus i'w hystyried ac i ba raddau y gallai fod yn dymuno cymryd rhan o ran Digwyddiadau, Baneri, Gwefannau, Portreadau, Llyfrau Cydymdeimlad, Llecyn ar gyfer Gosod Blodau, y Cyhoeddiad, Gwasanaethau Eglwysig, Clychau, Llifoleuadau, Gwyliau Cyhoeddus a Chod Gwisg.

Yn dilyn ei marwolaeth a'r cyhoeddiad swyddogol gan Balas Buckingham bydd cyfnod o ddeng niwrnod o alaru gwladol. Diwrnod D yw dyddiad ei marwolaeth a D10 yw dyddiad yr angladd gwladol llawn yn Abaty Westminster, oni bai fod D10 ar ddydd Sul, pan gynhelir yr angladd ar D11 Dydd Llun.

Argymhellir y dylai pob Cyngor baratoi eu hunain a chofio efallai y bydd rhaid canslo digwyddiadau a drefnwyd yn ystod y cyfnod o ddeng niwrnod na fyddech o reidrwydd yn gallu yswirio ar eu cyfer ac y gallai'r Cyngor orfod ysgwyddo cost unrhyw ganslo.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 243 yn eithrio dyddiau a ddewisir ar gyfer galaru cyhoeddus o'r tri diwrnod llawn o hysbysiad o gyfarfod Cyngor, ac am y rheswm hwnnw efallai y bydd rhaid i'r Cyngor ohirio cyfarfod neu gyhoeddi hysbysiad ar gyfer cyfarfod i'w gynnal wedi i'r angladd ddigwydd.

Nodir isod nifer o faterion y gallai pob Cyngor fod yn dymuno eu hystyried. Dylai Cynghorau gofio hefyd y gallai'r Cyngor Sir, fel arfer trwy swyddfa'r Maer neu'r Cadeirydd, gyhoeddi manylion trefniadau y gallai eu gwneud allai gynorthwyo Cyngor Cymuned neu Dref wrth gynllunio'r camau y byddai'n dymuno eu cymryd adeg marwolaeth EM Y Frenhines.

Argymhellir y dylai Cynghorau ystyried goblygiadau marwolaeth EM Y Frenhines a lle'n briodol y dylent benderfynu ymlaen llaw sut ddylai'r Cyngor ymateb.

**Digwyddiadau**

Dylai'r Cadeirydd/Maer, wedi ymgynghori â'r Clerc, edrych dros y digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer y Cadeirydd/Maer i weld a ydynt yn addas mewn cyfnod o alaru cenedlaethol.

Hefyd, dylai'r Clerc edrych dros ddigwyddiadau'r Cyngor a drefnwyd i ystyried a ydynt yn addas.

Er enghraifft, pe bai Sul y Cofio y flwyddyn honno yn digwydd o fewn y cyfnod o ddeng niwrnod byddai Sul y Cofio yn parhau fel arfer gyda gweddïau ychwanegol ac ati.

Ond pe bai'r Cyngor yn trefnu Goleuo Coelcerth Genedlaethol a/neu Seinio Clychau, byddai'n rhaid eu canslo gan eu bod yn arwydd o ddathlu.

Yn yr un modd, byddai'n rhaid ystyried ail-drefnu neu ganslo gweithgareddau Nadolig, gwasanaethau carolau, marchnadoedd, cynnau goleuadau ac ati.

**Baneri:**

Os oes gennych bolyn baner fertigol dylid hedfan y faner ar ei hanner trwy gydol y cyfnod galaru. **

Os yw'r polyn baner ar ongl dylid hedfan baner yr Undeb yn llawn gyda chrafatiau du (gallech gysylltu â'ch siop flodau leol i gael rholyn o ruban blodeuog du). **

** Ac eithrio D+1 a D+2 pan Gyhoeddir y Brenin newydd (Operation Spring Tide)

Dylid hedfan pob baner yn y ffordd arferol erbyn 9am ar y diwrnod wedi'r angladd.

**Gwefannau**

Ceisiwch ofalu fod gennych eiriau addas gan Faer neu Gadeirydd y Cyngor i'w rhoi ar eich gwefan. Efallai yr hoffech ystyried gosod tudalen ddu ar draws y dudalen agoriadol yn cynnwys portread o EM Y Frenhines a dolenni i rannau eraill o wefan y Cyngor yn cynnwys manylion am beth sy'n digwydd, beth gafodd ei ganslo neu ei ohirio neu at lyfr cydymdeimlad ar-lein.

**Portreadau**

Efallai yr hoffech drefnu cael portread o EM Y Frenhines ymlaen llaw y gellid ei roi ar fwrdd ellid ei ddarparu ar gyfer llyfr cydymdeimlad os yw'r llyfr cydymdeimlad yn mynd i fod yn un papur (ar yr amod fod cyfyngiadau COVID yn caniatáu).

Dylai'r portread gynnwys rhuban du wedi'i osod yn lletraws ar draws un o'r corneli uchaf.

Dylai unrhyw bortreadau yn siambr/ystafelloedd cyfarfod y Cyngor aros lle y maent gan osod rhuban du arnynt am gyfnod o fis sef y cyfnod Galaru Brenhinol.

Wedi hynny, dylid rhoi portread o'r Brenin newydd yn ei le gan symud portread EM Y Frenhines i leoliad arall.

**Llyfrau Cydymdeimlad**

Ar yr amod fod COVID yn caniatáu efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried darparu llyfr cydymdeimlad. Er ei bod yn ymarferol defnyddio llyfr cydymdeimlad clawr caled mae llyfr dalennau rhydd yn fwy effeithlon.

Y rheswm am y dalennau rhydd yw y gellir tynnu allan unrhyw dudalennau gafodd eu difenwi neu sy'n cynnwys sylwadau amhriodol.

Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried a ddylid mynd â llyfrau cydymdeimlad i ysgolion neu gartrefi gofal.

Wedi Diwrnod+11 gellir casglu a rhwymo'r dalennau rhydd a llunio llythyr esboniadol i'w ddanfon at yr Ysgrifennydd Preifat ym Mhalas Buckingham.

Os yw'r Cyngor yn dymuno cael llyfr cydymdeimlad mae angen iddo drefnu lleoliad addas ar gyfer bwrdd, gorchudd lliain, y portread ac ychydig beniau.

Neu, efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried llyfr cydymdeimlad ar-lein neu os oes gan y Cyngor Sir neu Balas Buckingham lyfrau cydymdeimlad ar-lein, gellid cynnwys dolen ar wefan y Cyngor i'r naill neu'r llall.

**Gosod Blodau**

Adeg marwolaeth Dug Caeredin dymuniad Palas Buckingham oedd na ddylid gosod blodau, a'r disgwyl yw y byddai'r Palas yn cyhoeddi eu dymuniadau adeg marwolaeth EM Y Frenhines. Argymhellir felly y dylai Cynghorau ddilyn arweiniad unrhyw gyhoeddiad a wneir ar y pryd.

Awgrymir hefyd y gellid annog aelodau'r gymuned sy'n awyddus i ddangos eu parch i wneud cyfraniad i elusen a gefnogir gan y Teulu Brenhinol yn hytrach na gosod blodau.

Os yw'n debygol y byddai'r gymuned yn awyddus i osod blodau mae angen cytuno llecyn pwrpasol ar gyfer hyn ymlaen llaw fel nad yw'n rhwystro mynediad i lwybrau ac ati.

Yn ddelfrydol dylid tynnu blodau allan o'u deunydd lapio ac nid eu gadael yn y gorchudd plastig. Bydd angen ichi esbonio'n glir y bydd yr holl flodau'n cael eu symud oddi yno ar y bore wedi'r Angladd Gwladol ac esbonio beth rydych yn bwriadu ei wneud â nhw.

Gwyddom fod un Cyngor wedi cytuno mai'r drefn ar y bore wedi'r Angladd Gwladol yw y bydd Maer y Dref yn casglu'r dorch gyntaf ac yn ei rhoi ar un o dryciau'r Cyngor, gyda'r Dirprwy Faer, Caplan y Maer, Cynghorwyr ac unrhyw aelodau o'r cyhoedd a ddaeth ynghyd yn eu dilyn.

Yna eir â'r blodau oddi yno i'w compostio ac fe ddefnyddir y compost y bydd y blodau'n ei gynhyrchu ar gyfer plannu coeden goffa.

**Cyhoeddiad**

Darllenir y Cyhoeddiad Cenedlaethol yn Llundain ar D+1 ac ym Melffast, Caerdydd a Chaeredin ar D+2. Fel arfer darllenir Cyhoeddiadau Sirol gan Uchel Siryfion ar D+2.

Efallai yr hoffech drefnu fod y cyhoeddiad yn cael ei ddarllen yn eich ardal chi, ond dylech gysylltu gyda swyddfa'r Arglwydd Raglaw i weld a oes ganddynt drefniadau ar gyfer hynny yn barod.

Dylid hedfan baneri ar gyfer darllen y Cyhoeddiad yn llawn ac yna dylid eu hedfan ar eu hanner unwaith eto.

**Gwasanaethau Crefyddol/Eglwysig**

Bydd Esgobaethau yr Eglwys yng Nghymru yn trefnu Gwasanaethau Eglwysig llawn ar gyfer eglwysi cadeiriol a phrif eglwysi ar Sul canol y cyfnod galaru deng niwrnod ac anogir eglwysi lleol i gynnal gwasanaethau ar noswyl yr Angladd Gwladol.

Yn ddelfrydol, dylech drafod beth fydd yn digwydd yn eich ardal leol gydag offeiriaid/arweinwyr crefyddol lleol cyn gynted ag y bo modd yn hytrach nac adeg marwolaeth EM Y Frenhines.

Efallai y gwahoddir y Cadeirydd/Maer a Chynghorwyr i fynychu Gwasanaeth Dinesig.

**Clychau**

Os cyhoeddir y farwolaeth Frenhinol cyn 12 ganol dydd ar Ddiwrnod D bydd pob eglwys yn seinio un gloch am bob blwyddyn o fywyd y Frenhines. Os gwneir y cyhoeddiad ar ôl 12 ganol dydd ar Ddiwrnod D, seinir y gloch ar D +1 am 12 ganol dydd.

**Gwyliau Cyhoeddus**

Ar ddiwrnod y farwolaeth gellir danfon gweithwyr adref yn gynnar.

Bydd diwrnod yr Angladd Gwladol yn Wyliau Cyhoeddus oni bai fod D10 ar ddydd Sadwrn.

Byddwch yn barod am oblygiadau posib hyn i waith y Cyngor ac a fydd rhaid talu cyflog ychwanegol i staff y mae gofyn iddynt gyflawni gweithredoedd hanfodol ar ran y Cyngor.

**Llifoleuadau**

Dylid gosod hidlydd porffor ar lifoleuadau ar adeiladau cyhoeddus yn ystod y cyfnod galaru deng niwrnod neu dylid eu diffodd.

**Cod Gwisg**

Ar ddiwrnod yr Angladd Gwladol, byddai'n briodol i arweinwyr dinesig, cynghorwyr ac uwch swyddogion wisgo teis neu fandiau braich du yn arwydd o barch os dymunant wneud hynny.

**Dau Funud o Dawelwch**

Pan fwriedir cofnodi marwolaeth EM Y Frenhines gyda chyfnod o dawelwch gwneir cyhoeddiad i'r perwyl hwnnw gan Balas Buckingham.

**Cyngor Arall**

Pan fu farw Dug Caeredin roedd cyfyngiadau COVID yn golygu na ellid cynnal rhai digwyddiadau yn gyhoeddus. Os yw'r wlad mewn sefyllfa debyg adeg marwolaeth Ei Mawrhydi Y Frenhines bydd angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau sydd ar waith ar y pryd a gweithredu yn unol â hynny.

Efallai y bydd angen canslo gwasanaethau a chyhoeddiadau cyhoeddus neu eu cynnal ar-lein.

Efallai na fydd yn bosib cael llyfrau cydymdeimlad papur, ond byddai cynnwys dolen ar wefan y Cyngor i lyfr ar-lein megis un y Cyngor Sir neu un a drefnwyd gan Balas Buckingham yn briodol.

Mehefin 2021 (SEB)